



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Cymwysterau gwaith cymdeithasol

Gwybodaeth am y radd gwaith cymdeithasol, yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gan y tair blynedd gyntaf o ymarfer a hyfforddiant ôl-gymhwyso.

Cyhoeddwyd gyntaf: 10 March 2017

Diweddariad olaf: 8 April 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/cymwysterau-ac-ariannu/cymwysterau-gwaith-cymdeithsol> am y fersiwn diweddaraf.

Y radd mewn gwaith cymdeithasol yw'r cymhwyster proffesiynol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru a ledled y DU. Mae'r [teitl gweithiwr cymdeithasol wedi'i ddiogelu](#). Dim ond pobl sydd â chymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol all ymarfer fel gweithwyr cymdeithasol. Disgwylir i weithwyr cymdeithasol gynyddu eu gwybodaeth a'u sgiliau ar ôl iddynt fod yn gymwys.

Diffiniad o weithiwr cymdeithasol

Dyma'r diffiniad cenedlaethol cyntaf y cytunwyd arno o rôl gweithiwr cymdeithasol. Cafodd hwn ei greu yn dilyn ymgynghoriad helaeth ag ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys [WLGA](#), [BASW Cymru](#) ac [ADSS Cymru](#) a chytunwyd yn unfrydol fel diffiniad swyddogol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru.

Mae gwaith cymdeithasol yn broffesiwn sy'n cefnogi, yn awdurdodi a diogelu'r oedolion a phlant mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas

Mae gweithwyr cymdeithasol yn amddiffyn hawliau dynol pobl sydd, am resymau gwahanol, angen help i siarad drostynt eu hunain. Mae ganddynt ystod o wybodaeth a sgiliau cyfreithiol, academaidd ac ynglŷn â gwaith cymdeithasol. Mae'r teitl 'gweithiwr cymdeithasol' wedi'i ddiogelu a dydych chi ddim yn cael ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol heb i chi gymhwyso a chofrestru.

Mae gweithwyr cymdeithasol yn sefydlu perthnasoedd drwy weithio gyda phobl i'w helpu i nodi eu cryfderau, anghenion a chanlyniadau llesiant. Maen nhw'n

cefnogi pobl i gydbwysu eu hawliau a'u cyfrifoldebau iddynt gael gafael ar gymorth a chefnogaeth yn ôl yr angen. Mae ganddyn nhw hefyd ddyletswyddau diogelu statudol, lle bo angen.

Mae'r proffesiwn yn rhoi'r cyfle i chi weithio gydag ystod eang o'r boblogaeth ac i'w cefnogi nhw ar eu hamseroedd mwyaf anodd ac agored i niwed. Mae disgwyl i weithwyr cymdeithasol lywio llwybr anodd ar adegau drwy feithrin ymddiriedaeth a chyfathrebu oddi fewn i berthnasoedd teuluoedd a chymunedol cymhleth. Mae'n yrfa werth chweil ac yn rhoi'r cyfle i chi weithio am newid cymdeithasol a chyfranogiad ystyrlon mewn gwneud penderfyniadau i wella lles pobl.

Cyfranogiad unigryw gwaith cymdeithasol

Dyma ddiffiniad o waith cymdeithasol o wefan [Ffederasiwn Rhyngwladol y Gweithwyr Cymdeithasol](#).

'Gwaith cymdeithasol yw'r proffesiwn sy'n tyfu cyflymaf yn y byd wrth i fwy o lywodraethau a chyflogwyr gydnabod yr effaith bwerus mae gweithwyr cymdeithasol yn ei chael mewn cymunedau. Cyfraddau troseddu is, canlyniadau iechyd gwell, a mwy o bobl yn cael mynediad i waith ac addysg ymhlith - dyma rai o ganlyniadau i weithwyr cymdeithasol proffesiynol gefnogi pobl i fod yn gyfrifol am eu dyfodol a gwireddu eu dyheadau.

Fel proffesiwn sy'n seiliedig ar hawliau dynol, mae gan waith cymdeithasol rôl hanfodol ym mhob cymdeithas i hwyluso cymunedau a phoblogaethau i godi eu lleisiau a sefyll ar gyfer eu cydraddoldeb ochr-yn-ochr â phawb arall. Mae cryfder y proffesiwn gwaith cymdeithasol yn ei allu i adeiladu democratiaeth gyfranogol,

ymgysylltiad cymunedau yn eu dyfodol cynaliadwy, ac amddiffyn hawliau dynol.'

Mae newidiadau i ddeddfwriaeth yng Nghymru yn gofyn am ddull mwy cydweithiol o weithio ochr-yn-ochr â phobl i ddiwallu eu hanghenion canlyniadau personol. Mae'r dull yma'n datblygu gweithlu sy' ddim yn dibynnu ar fodel gwasanaethau yn unig ond yn defnyddio ei wybodaeth a sgiliau, gyda chefnogaeth ymchwil a thystiolaeth gwaith achos i gefnogi unigolion.

Mae Cymru Iachach, Deddf Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gyd yn gofyn am ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau pobl, yn canolbwyntio arnynt fel pobl ac yn ffocysu ar eu canlyniadau. Mae'r rhain i gyd ar sail gweithio ar y cyd i hyrwyddo llais a rheolaeth.

Mae'r ddeddfwriaeth wedi symud y pwyslais i ataliaeth, ymyrraeth gynnar a chanolbwyntio ar y gymuned. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i gefnogi pobl neu gymunedau i ddefnyddio dull holl systemau ar sail cryfderau pobl.

Mae gwaith cymdeithasol yn diogelu pobl sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol, mewn risg o gam-drin neu esgeulustod, neu sy'n agored i newid am resymau eraill. Rhaid i waith cymdeithasol gydbwysu'r rolau cefnogi a diogelu'n ofalus. Rhaid i'r rhain gyd-fynd ag anghenion ac amgylchiadau'r person neu'r teulu.

Rydym yn broffesiwn cydweithiol, sy'n gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill i helpu plant, oedolion a theuluoedd wella ac ennill rheolaeth dros eu bywydau ar adegau pryd mae eu diogelwch neu allu i gymryd rhan yn eu cymunedau yn cael ei gyfyngu.

Fel gweithwyr cymdeithasol, mae disgwyl i chi:

- weithio yn arbenigwr ac adnodd i'r wladwriaeth

- gweithio i alluogi pobl, i hyrwyddo eu hurddas a'u hawliau dynol
- ymarfer mewn ffordd wrth-ragfarnllyd drwy'r amser
- bod â'r ddyletswydd a'r pŵer i asesu a diogelu pobl mewn risg
- bod y person a enwir gyda chyfrifoldeb statudol am reoli baich achos o unigolion a theuluoedd
- gweithio fel eiriolwr i bobl agored i niwed a phlant (fel sy'n cael ei ddatgan ym mhwynt 32 o'r [Côd Ymarfer](#))
- hyrwyddo gofal a chymorth gan weithwyr proffesiynol eraill, fel bod pobl yn cael y cymorth priodol ar yr amser priodol
- gweithio o fewn fframwaith deddfwriaeth Cymru
- mabwysiadu unrhyw dechnoleg newydd sy'n ein helpu ni i ddiwallu anghenion ein cleientiaid.

Yn derfynol, nod pob gweithiwr cymdeithasol yw galluogi pobl i wneud newidiadau positif a pharhaus yn eu bywydau, i sicrhau eu bod yn cyrraedd eu potensial, ac i wneud cyfraniad positif i gymdeithas.

Mae gweithiwr cymdeithasol eisiau:

- gwneud gwahaniaeth
- gwella pethau i bobl
- cefnogi pobl i ddiffinio sut mae 'gwella' yn edrych iddyn nhw a'u cefnogi i sicrhau newid cadarnhaol
- gweithio gyda phobl i gadw eu hunain yn ddiogel cyn belled ag y bo modd, gan sicrhau hefyd bod y ddyletswydd statudol o ddiogelu yn cael ei chyflawni pan fo angen
- cefnogi pobl i liniaru'r heriau y maent wedi'u profi yn eu bywydau, yn aml heb unrhyw fai arnynt hwy eu hunain, fel y gallant geisio byw mor annibynnol a chyflawn â phosibl
- trio lleihau anghydraddoldeb sy'n bodoli, fel bod pobl yn cael y gora o'i fywydau

- trio rhoi ffydd a chyfleoedd i bobl!

Addysg gymhwyso gwaith cymdeithasol

Mae gweithwyr cymdeithasol yn hybu llesiant ac yn gwella canlyniadau i bobl. Maen nhw'n canolbwyntio ar yr hyn sydd o bwys i'r bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth.

Mae ar weithwyr cymdeithasol angen:

- sgiliau cyfathrebu ardderchog
- cadernid
- gwybodaeth am y gyfraith a pholisi
- gwybodaeth am theori gwaith cymdeithasol.

Er mwyn cymhwyso'n weithiwr cymdeithasol yng Nghymru mae'n rhaid i chi gwblhau cwrs a gymeradwyir gennym ni.

Mae'r cymhwyster gwaith cymdeithasol yn cynnwys yr un faint o ddysgu academaidd ac ymarferol. Gallwch astudio ar ei gyfer ar lefelau graddedig neu ôl-raddedig. Mae prifysgolion yn rhedeg rhaglenni mewn partneriaeth gyda gwasanaethau gwaith cymdeithasol awdurdodau lleol.

Prifysgolion yng Nghymru sy'n cynnig y radd israddedig

- [Prifysgol Metropolitan Caerdydd](#)
- [Prifysgol Glyndŵr](#)
- [Prifysgol Abertawe](#)
- [Prifysgol De Cymru](#) (Saesneg yn unig)
- [Y Brifysgol Agored - gwaith cymdeithasol - drwy ddysgu o bell yn unig](#)

Prifysgolion yng Nghymru sy'n cynnig y radd Meistr

- [Prifysgol Bangor – gradd Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol](#)
- [Prifysgol Caerdydd – gradd Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol](#)
- [Prifysgol Abertawe – gradd Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol](#)

Am gymorth ariannu gweler y [bwsariaethau rydyn ni'n eu cynnig a chymorth ariannol arall sydd ar gael](#).

Gweithlu gwaith cymdeithasol sy'n addas ar gyfer y dyfodol: adroddiad newydd

Mae'r nifer o fyfyrwyr gwaith cymdeithasol wedi bod yn gostwng yng Nghymru ers 2016.

Rydyn ni wedi cyhoeddi adroddiad newydd gyda'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus ym Mhrifysgol Oxford Brookes sy'n edrych ar y sefyllfa ar hyn o bryd a beth sydd angen i ni ei wneud i sicrhau bod gennym ni ddigon o weithwyr cymdeithasol yn y dyfodol.

[Dysgwch fwy am yr adroddiad](#), ei argymhellion a beth rydyn ni'n mynd i'w wneud.

Y Rhaglen Gadarnhau ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso

Mae hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yn eu rôl gyntaf ym maes gwaith cymdeithasol ar ôl cymhwyso.

Os gwnaethoch chi gymhwyso ar ôl 1 Ebrill 2016 bydd angen i chi gwblhau'r Rhaglen hon i adnewyddu eich cofrestrriad proffesiynol.

Caiff y rhaglen ei darparu gan y canlynol:

- Porth Agored mewn cydweithrediad gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Mae gofynion y rhaglen ar gael ar dudalen [rheoleiddio hyfforddiant gwaith cymdeithasol](#).

Atebion i'ch cwestiynau

- [Darllenwch ein cwestiynau cyffredin am y Rhaglen Gadarnhau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso](#)

Y tair blynedd cyntaf o ymarfer

Mae ar weithwyr cymdeithasol angen set o sgiliau sy'n seiliedig ar wybodaeth, gwerthoedd a phriodoleddau personol. Ni ellir datblygu'r rhain yn llawn trwy gwrs gymhwyso yn unig ac mae angen datblygiad proffesiynol ar gyfer gweithwyr proffesiynol wrth iddynt ddod yn ymarferwyr profiadol.

Rydym wedi gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i ddatblygu canllawiau i helpu gyda datblygiad gweithwyr cymdeithasol ar ôl iddynt gymhwyso. Mae hyn yn dwyn ynghyd yr hyn y disgwylir i weithwyr cymdeithasol a'u cyflogwyr ei wneud.

Mae tri cham i'r fframwaith tair blynedd cyntaf o ymarfer

- Sefydlu mewn gwaith cymdeithasol proffesiynol.
- Magu cymhwysedd a hyder.
- Rhaglen Gadarnhau ac adnewyddu cofrestrriad gyda ni.

Gyda hyfforddiant, cymorth ac ymarfer, mae gweithwyr cymdeithasol yn datblygu eu sgiliau mewn sefyllfaoedd mwyfwy cymhleth.

[Y tair blynedd gyntaf o ymarfer](#)

PDF 584KB

Fframwaith Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus (DAPP) ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol

Yn dilyn gwerthusiad ac adolygiad, daeth y rhaglenni Ymarfer Profiadol, Ymarfer Uwch a Gwaith Cymdeithasol Ymgynghorol i ben yn 2020.

Mae adroddiadau gwerthuso DAPP ar gael drwy e-bostio iwqueries@socialcare.wales

Mae'r fframwaith ôl-gymhwyso yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Rydyn ni'n ddiolchgar i'n partneriaid am eu cefnogaeth barhaus i ddiffinio addysg ôl-gymhwyso gwaith cymdeithasol yng Nghymru.

Nid yw'r Rhaglen Gadarnhau yn rhan o'r adolygiad yma ac nid oes newidiadau pellach wedi'u cynllunio ar gyfer y rhaglenni hyn.

Nid yw'r cyrsiau ôl-gymhwyso eraill sydd wedi'u rhestru isod yn rhan o'r adolygiad yma.

Cyrsiau ôl-gymhwyso eraill

Rydym hefyd yn cymeradwyo cyrsiau ôl-gymhwyso i gefnogi gweithwyr yn y rolau canlynol:

Proffesiynolyn Iechyd Meddwl Cymeradwy PIMC

Mae Proffesiynolion Iechyd Meddwl Cymeradwy yn cael eu hyfforddi i gymhwyso elfennau o gyfraith iechyd meddwl gydag ymarferwyr meddygol. Gallant fod yn weithwyr cymdeithasol a phroffesiynolion eraill gan gynnwys nyrsys seiciatrig cymunedol, therapyddion galwedigaethol a seicolegwyr. Caiff y rhaglen ei darparu gan Prifysgol Abertawe.

- [Mwy am y cwrs.](#)

Dysgu ymarfer ac asesu myfyrwyr gwaith cymdeithasol

Mae cefnogi ac asesu ymarfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol yn hanfodol. Mae'n helpu i benderfynu a oes ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth i ddod yn weithiwr cymdeithasol.

Caiff y rhaglen ei darparu gan:

- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol De Cymru
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

Datblygu'r Rheolwr Tîm

Mae'r [Rhaglen Ddatblygu Rheolwr Tîm](#) yn cefnogi cyflwyno ymarfer gwaith cymdeithasol rhagorol trwy alluogi rheolwyr rheng flaen i wella ansawdd

ymarfer, rheoli eu tîm yn effeithiol a delio â newid yn llwyddiannus. Caiff y rhaglen ei darparu gan Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ym Mhrifysgol Brookes Rhydychen.

Gweld trawsgrifiad

00:06 --> 00:10

Ni'n gwybod bod buddsoddi yn y gweithlu a datblygu pobl

00:11 --> 00:12

wrth wraidd gwasanaethau da yng Nghymru.

00:13 --> 00:15

Dyna pam gweithion ni gyda'r sector

00:16 --> 00:17

i greu'r Rhaglen Datblygu Rheolwyr Tîm.

00:19 --> 00:21

Mae'r Rhaglen Datblygu Rheolwyr Tîm yn gwrs 18 mis

00:23 --> 00:25

a allai'ch helpu chi i wella ansawdd ymarfer,

00:26 --> 00:28

rheoli eich tîm yn effeithiol

00:28 --> 00:30

ac ymdrin a newid yn llwyddiannus.

00:31 --> 00:34

Mae TMDP yn gwrs ymarferol iawn

00:34 --> 00:36

ac un o'r prif agweddau, dw i'n meddwl,

00:36 --> 00:37

yn gyntaf ac yn bennaf

00:37 --> 00:39

yw ei fod e'n rhoi cyfle i bobl rwydweithio gyda'u cyfoedion.

00:40 --> 00:40

Gall bod yn rheolwr deimlo'n eithaf unig ar adegau

00:42 --> 00:45

ac mae TMDP yn meithrin ymdeimlad gwirioneddol o berthyn

00:46 --> 00:48

a dealltwriaeth gyffredin o heriau cyfunol.

00:48 --> 00:50

Pe baech chi'n dilyn y cwrs

00:50 --> 00:52

byddech chi'n cael amser a lle

00:52 --> 00:54

i fyfyrto ar eich ymarfer eich hun

00:54 --> 00:55

ac ar y ffordd rydych chi'n mynd ati

00:55 --> 00:58

i wella ansawdd ymarfer o fewn eich timau.

00:58 --> 00:59

Y peth gorau yn fy marn i

01:00 --> 01:01

oedd y perthnasoedd roeddwn i wedi'u ffurfio

01:01 --> 01:03

gyda chyfoedion ar draws Cymru.

01:03 --> 01:06

Yn aml iawn byddech yn cwrdd â rheolwr tebyg

01:07 --> 01:09

mewn rôl debyg, sy'n wynebu'r un heriau â chi.

01:11 --> 01:13

A'r hyn roeddwn wedi'i ddarganfod yw

01:13 --> 01:14

y bydden nhw'n datrys problemau

01:14 --> 01:15

mewn ffyrdd gallwn i eu defnyddio fy hun

01:16 --> 01:18

a gallwn i fynd â'r syniadau yna i fy awdurdod lleol fy hun.

01:18 --> 01:20

Felly roedd e'n ddefnyddiol iawn gwranddo ar syniadau pobl eraill.

01:21 --> 01:23

Dw i'n credu bod y cwrs wedi fy nysgu i

01:24 --> 01:28

i ddeall y pwysau rhwng

01:28 --> 01:30

rheoli tîm o weithwyr cymdeithasol

01:30 --> 01:31

a gweithwyr cymorth ac ati

01:31 --> 01:35

yn erbyn y pwysau

01:35 --> 01:38

a'r disgwyliadau, fel petai, sydd gan reolwyr uwch.

01:38 --> 01:40

Mae yna dargedau i'w cyrraedd, ch'mod.

01:42 --> 01:43

Mae yna ystyriaethau cyllidebol gan y rheolwyr uwch.

01:45 --> 01:48

Ond mae yna dîm o unigolion a bodau dynol hefyd

01:48 --> 01:51

sydd angen cael eu cefnogi'n briodol ac yn effeithiol.

01:51 --> 01:53

Dw i'n credu bod y cwrs wedi fy nysgu i

01:53 --> 01:58

i ddelio ag anawsterau o'r fath yn well.

Datblygu'r Rheolwr Canol

Mae'r [Rhaglen Datblygu'r Rheolwr Canol](#) yn darparu hyfforddiant arweinyddiaeth ar gyfer rheolwyr canol gofal cymdeithasol yng Nghymru, mae'r rhaglen hon yn cefnogi rheolwyr i ymateb i ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Caiff y rhaglen ei darparu gan Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ym Mhrifysgol Brookes Rhydychen.

Gweld trawsgrifad

00:07 --> 00:10

Ni'n gwybod bod buddsoddi yn y gweithlu a datblygu pobl

00:11 --> 00:13

wrth wraidd gwasanaethau da yng Nghymru.

00:13 --> 00:16

Dyna pam gweithion ni gyda'r sector

00:16 --> 00:18

i greu'r Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol.

00:19 --> 00:23

Mae'r Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol ar gyfer rheolwyr canol

00:23 --> 00:27

mewn lleoliadau gofal cymdeithasol ledled Cymru.

00:28 --> 00:30

Bydd y rhaglen yn eich helpu chi

00:30 --> 00:32

i ddatblygu fel arweinydd,

00:32 --> 00:34

llunio gofal cymdeithasol

00:34 --> 00:36

a sicrhau canlyniadau gwell.

00:37 --> 00:39

MMDP yw'r cam nesaf rhesymegol i unrhyw un

00:39 --> 00:41

sydd wir eisiau hogi eu sgiliau arwain a rheoli.

00:42 --> 00:44

Mae ffocws cryf ar

00:44 --> 00:46

reolaeth strategol, arweinyddiaeth strategol,

00:46 --> 00:49

yr agwedd gydweithredol yna sy'n dod gyda'r rolau mwy strategol

00:49 --> 00:51

a gweithio mewn partneriaeth.

00:51 --> 00:54

Fe wnaeth e helpu fi i ddatblygu fy sgiliau arwain fy hun,

00:55 --> 00:57

i fyrfyrio ar bwy ydw i fel arweinydd, a sut i ddatblygu.

00:57 --> 00:59

Beth yw fy mhwyntiau da? Beth yw fy nghryfderau?

00:59 --> 01:01,002

A pha feysydd sydd angen eu datblygu.

01:01 --> 01:03

Ac rydych chi'n dysgu o wrando ar eraill

01:03 --> 01:05

a chlyewd am eu profiadau nhw.

01:05--> 01:07

Dw i hefyd yn credu ei fod wedi gwneud i chi feddwl am --

01:07 --> 01:08

Felly, er enghraifft, comisiynu

01:08 --> 01:11

oedd un i'r pynciau ddysgon ni lawer amdano

01:11 --> 01:13

a meddyliais i, "Wel, nid comisiynu dw i'n wneud.

01:13 --> 01:15

Ymarfer gwaith cymdeithasol yw beth dw i'n ei wneud."

01:15 --> 01:17

Ond, mewn gwirionedd, dw i'n comosoynu bob dydd.

01:17 --> 01:19

Ond yr iaith o gwmpas hwnna, a'r ddamcaniaeth y tu ôl iddi...

01:19 --> 01:21

dydych chi ddim yn meddwl bod hynny'n eich adlewyrchu

01:22 --> 01:22

chi na'ch datblygiad

01:22 --> 01:24

a chi jyst yn meddwl, "O ie -- dw i yn gwneud hyn!"

01:25 --> 01:27

ac mae'n helpu chi, dw i'n meddwl, i gredu ynoch chi'ch hun

01:27 --> 01:29

ac i fagu hyder a gwybod

01:30 --> 01:32

"Dwi'n gwneud hyn bob dydd a 'dyw e ddim yn beth ofnus.

01:32 --> 01:34

Dyw'r theori na'r hyn sydd y tu ôl iddi ddim yn beth ofnus,

01:34 --> 01:35

dyna dw i'n ei wneud".

01:35 --> 01:36

Dylech chi ddilyn y cwrs MMDP os ydych yn dymuno

01:36 --> 01:40

dod yn arweinydd strategol cryfach nag ydych chi eisoes

01:41 --> 01:43

a dylech chi ddilyn y cwrs hefyd

01:43 --> 01:45

os oes gennych awydd i lunio'r farchnad gofal cymdeithasol,

01:45 --> 01:47

i ddylanwadu ar eich darparwyr

01:47 --> 01:49

ond hefyd i gefnogi a gofalu am eich darparwyr

01:49 --> 01:51

achos rydyn ni gyd yn gweithio tuag at yr un nodau.

Cysylltu â ni

Os oes gennych gwestiwn neu os na allwch ddod o hyd i'r hyn yr ydych yn edrych amdano, [cysylltwch â ni](#).